OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2919 (Cy.258)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym - -	*30 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn—

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun y Taliad Sengl ac Amrywiol Gynlluniau Cymorth Uniongyrchol (Apelau) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2004.

Cymhwyso

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i benderfyniad perthnasol a wneir mewn perthynas â ffermwr sydd â'i ddaliad wedi'i leoli, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yng Nghymru.

Dehongli

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i "daliad" yr un ystyr ag sydd i "holding" yn Erthygl 2(b) o Reoliad y Cyngor;

ystyr "Deddfwriaeth y Gymuned" ("*the Community legislation*") yw Rheoliad y Cyngor, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2237/2003 sydd yn gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso rhai cynlluniau cefnogi a ddarperir ar eu cyfer yn Nheitl IV o Reoliad y Cyngor (**3**), Rheoliad

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) (O.S. 1999/2788) ("y Gorchymyn"). Mae pŵer y Cynulliad Cenedlaethol, fel corff sydd wedi'i ddynodi mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, i wneud rheoliadau sy'n gymwys i ddaliadau sy'n cynnwys tir sydd wedi'i leoli o fewn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru wedi'i gadarnhau gan baragraff 2(b) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) OJ Rhif L339, 24.12.2003, t.52.